

National Parks For All Parciau Cenedlaethol i Bawb



Promoting Social Inclusion
Hybu Cynhwysiad Cymdeithasol



BRECON BEACONS
NATIONAL PARK



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



SNOWDONIA
NATIONAL PARK



Mae 20% o dir Cymru wedi ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol. Mae'r Parciau Cenedlaethol yn hanfodol bwysig i iechyd amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol y genedl. Ond mae sicrhau fod potensial i bawb fuddio o'r asedion cenedlaethol hyn yn sialens.

Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn symud ymlaen yn sylweddol gyda'r gwaith o hybu cynhwysiad cymdeithasol.. Mae gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill a grwpiau cymunedol yn allweddol i weithredu ar lafar gwlad, gan gynnwys gweinyddu y Gronfa Datblygu Cynaladwy (CDC), cefnogi mentrau economaidd a chymdeithasol, a chynyddu cyfleoedd mynediad er mwyn ehangu cyfranogaeth a dealltwriaeth i bawb.

Y mae'r CDC wedi cefnogi mentrau cymunedol megis hyfforddiant gyrfäol i bobl ifainc o dan anfantais, ac ymchwil i ddeall y materion sy'n gysylltiedig â'r diffyg tai fforddiadwy.

Mae Mosaic yn brosiect sy'n cynnwys lleiafrifoedd ethnig yn y Parciau Cenedlaethol. Caiff ei weinyddu gan yr elusen Cyngor y Parciau Cenedlaethol (CPC) ar y cyd gyda'r Black Environment Network (BEN) ar draws Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gefnogwr brwd yng Nghymru.

Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru nawr yn gweithio i ddatblygu Strategaethau Cynhwysiad Cymdeithasol unigol, a maent yn bwriadu gweithio gyda'i gilydd ar fenter ar y cyd â'r elusen cydraddoldeb Chwarae Teg.

Mae ein Parciau Cenedlaethol yn deillio o fudiad a oedd yn credu'n angerddol mewn cynhwysiad cymdeithasol, ac mae Awdurdodau'r Parciau wedi bod yn gweithio ar amryw o fesurau i gyflawni'r amcan hwn ers blynnyddoedd. Rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n cadw'r angerdd yma wrth fwrw ymlaen. Y mae'r ddogfen hon yn amlinellu esiamplau o waith yr Awdurdodau a phartneriaid allweddol y Parciau Cenedlaethol sydd yn cyfrannu tuag at gyfleoedd a mynediad ehangach i bawb.

National Parks cover 20% of the land of Wales. They are of vital importance to the environmental, economic and social health of the nation. But ensuring that everyone has the potential to benefit from these national assets is a challenging task.

The three National Park Authorities are working to make significant progress in promoting social inclusion. Working in partnership with other organisations and community groups is key to delivery, including the administration of the Sustainable Development Fund (SDF), supporting social and community enterprise, and increasing access opportunities to widen participation and understanding all.

The SDF has supported community-led initiatives such as vocational training for disadvantaged young people, and research to identify issues relating to lack of affordable housing.

Mosaic is a project that includes ethnic minorities in National Parks. It is run by the charity Council for National Parks (CNP) jointly with the Black Environment Network (BEN) across the National Parks of England and Wales, with Brecon Beacons National Park Authority being a major supporter in Wales.

The Welsh National Park Authorities are now working on the development of individual Social Inclusion Strategies and aim to work in collaboration with the equalities charity Chwarae Teg on a three-Park initiative.

Our National Parks were created from a movement driven by a passionate belief in social inclusion, and the Park Authorities have been working on a range of measures to achieve this aim for many years. We need to ensure that we take that passion forward. This document outlines examples of work undertaken by the Park Authorities and key National Park partners which contribute towards greater opportunities and accessibility for all.



Canolfan Ymwelwyr
y Parc Cenedlaethol
ger Aberhonddu

The National Park Visitor
Centre, near Brecon

Yn glocwedd

Pobl anabl yn mwynhau
Camlas Aberhonddu a Sir Fynwy
Mynediad hawdd ym Mharc Cenedlaethol Eryri
Etifeddiaeth Byw, Canolfan Cymunedol
a Ieuencid Synfaddan
Dechrau Sicr yn defnyddio
Bws y Bannau ar daith i Garwnant
Cerddwyr yn mwynhau Llwybr
Arfordir Penfro ym Marloes
Dringo mewn Parc
Cenedlaethol ar daith Mosaic



Clockwise

Disabled Ramblers enjoy the
Brecon and Monmouthshire Canal
Easy access in Snowdonia National Park
Living heritage, Llangors Youth
and Community Centre
SureStart use the Beacons Bus
for a trip to Garwnant
Walkers enjoy the Pembrokeshire
Coast Path at Marloes
Rock climbing in a National Park
on a Mosaic visit (photo: Mosaic)



Prosiect Mosaic – Parciau Cenedlaethol i Bawb

Cefndir

Y prosiect arweiniol Mosaic, a sefydlwyd gan ddau Gorff Anlywodraethol, Cyngor y Parciau Cenedlaethol (CPC) a'r Black Environment Network (BEN)*, yw'r prosiect mynediad Parc Cenedlaethol cyntaf a gynlluniwyd yn benodol i gynnwys cymunedau lleiafrifol ethnig yn nhreftadaeth naturiol Prydain.**

Er bod miliynau'n mwynhau ein Parciau Cenedlaethol, nid ydynt o



fewn cyrraedd cyfartal i bob cymuned ym Mhrydain, yn enwedig y rheiny sy'n byw yn y dinasoedd. Mae Mosaic*** yn adeiladu ar wreiddiau mudiad y Parciau Cenedlaethol ac agenda cynhwysiad cymdeithasol Llywodraethau'r DU a'r Cynulliad.

Bwriad Mosaic yw newid a dylanwadu ar drefniadaethau a pholisïau'r Parciau Cenedlaethol ar y naill law, ac annog c yfranogaeth ethnig ar y llall. Mae'n creu cyfleoedd i gynulleidfaedd newydd gymryd rhan mewn cadwraeth a gweithgareddau addysgiadol yn yr awyr agored, ac yn cynyddu eu dealltwriaeth a'u

mwynhad o Barciau Cenedlaethol. Yr un yw nifer o'r materion sy'n ymwneud â gweithio gyda lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill dan anfantais.

Targedodd Cyngor y Parciau Cenedlaethol leiafrifoedd ethnig am ei fod yn teimlo bod gweithio gyda nhw yn gofyn am sgiliau penodol nad oedd y sector amgylcheddol yn ymdrin â nhw.

Gwaith Mosaic

Ymwelodd grwpiau cymunedol â 7 Parc Cenedlaethol i ddechrau'r prosiect. Bu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd rhan uniongyrchol yn ymweliadau Mosaic, a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cymryd rhan anuniongyrchol ynddynt. Cymerodd y grwpiau ran mewn ystod eang o weithgareddau, a ddilynwyd gan ymateb manwl.

Darparwyd hyfforddiant ar gyfer pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â mudiadau o'r sector gwirfoddol. Bu cyfranogwyr prosiect Mosaic yn ymddwyn fel llysgenhadon Parciau Cenedlaethol mewn digwyddiadau hyrwyddol trefol ac buont yn helpu nodi mwy o grwpiau ethnig mewn ardaloedd o amgylch y Parciau Cenedlaethol.

Mae Mosaic yn cynhyrchu canllawiau "proses model" ar gyfer uniad Parciau Cenedlaethol â chymunedau ethnig. Bydd digwyddiad cofiadwy yn cael ei gynnal yn 2004 i rannu arfer da. Bydd gwefan Mosaic yn darparu adnoddau i'r rheiny sy'n cymryd diddordeb mewn gweithio â chymunedau ethnig.

Mae Mosaic yn datblygu "pecyn hyfforddi ymweld â chefn gwlad" er mwyn helpu grwpiau i drefnu ymweliadau diogel a chyfrifol i gefn gwlad.

Camau Nesaf

Prosiect tair blynedd yw Mosaic: daw i ben yn haf 2004. Mae'n bosib y bydd is-grwp o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, mudiadau eraill a Mosaic yn datblygu prosiect pellach er mwyn cyferthu ei lwyddiannau.

Nodiadau

* Cyngor y Parciau Cenedlaethol yw llais y sector gwirfoddol ar faterion Parciau Cenedlaethol. BEN yw'r sefydliad arloesol sydd wedi datblygu maes cyfranogiad amgylcheddol ethnig.

** Dynodir Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr i warchod a hybu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'u rhinweddau arbennig gan y cyhoedd. Mae mynediad i fwynhad yn effeithio'n bositif ar iechyd a lles, tra bod mynediad i ddealltwriaeth yn cyfrannu at deimlad o berchnogaeth ac yn gosod y sylfaen am ofal amgylcheddol.

***Mae cefnogaeth i brosiect Mosaic yn cynnwys: Cronfa Treftadaeth y Loteri, Asiantaeth Cefn Gwlad, Sefydliad Baring, Cyngor Astudiaethau Maes a Chymdeithas Adeiladu Nationwide. Mae Cymdeithas yr Hosteli Ieuentid yn cefnogi'r prosiect â chynnyrch.

Grwp henoed
Tseiniaidd yn ymarfer
Tai Chi mewn Parc
Cenedlaethol
(llun: Mosaic)

Chinese elders group
practising Tai Chi
in a National Park
(photo: Mosaic)

Mosaic Project - National Parks for All

Background

The flagship Mosaic project, set up by two NGOs: the Council for National Parks (CNP) and the Black Environment Network (BEN)*, is the first National Park access project designed specifically to involve minority ethnic communities in Britain's natural heritage.** Although our National Parks are enjoyed by millions, they are not equally accessible to all communities in Britain, especially those

living in the cities. Mosaic*** builds on the origins of the National Park movement and the social inclusion agenda of the UK and Welsh Assembly governments.

Mosaic aims to influence and change National Park policies and procedures on the one hand, and encourage ethnic participation on the other. It creates opportunities for new audiences to take part in conservation, educational and outdoor activities, and to increase their understanding and enjoyment of National Parks.

Many issues relating to ethnic minorities are generic to engaging with other disadvantaged groups. The Council for National Parks targeted ethnic minorities because it felt that working with them required particular skills that were not being addressed by the environmental sector.

Mosaic's work

Community groups visited 7 National Parks to kickstart the project. The Brecon Beacons National Park was directly involved, and the Pembrokeshire Coast National Park was indirectly involved in Mosaic visits. Groups took part in a wide range of activities, followed by detailed feedback.

Training was provided for all National Park Authorities across England and Wales as well as voluntary sector bodies. Mosaic project participants acted as National Park ambassadors at urban promotional events and helped identify more ethnic groups in areas surrounding the National Parks. Mosaic is producing "model process" guidelines for National Park engagement with ethnic communities. A landmark event will be held in 2004 to share good practice.

The Mosaic website will make resources available to those interested in engaging ethnic communities. Mosaic is developing a "countryside visit training pack" to help groups organise safe and responsible visits to the countryside.

Next steps

Mosaic is a three year project, ending in summer 2004. A sub group of National Park Authorities, other organisations and Mosaic may develop a further project to consolidate its successes.

Notes

* The Council for National Parks is the voluntary sector voice on National Park issues. BEN is the pioneering organisation that has developed the field of ethnic environmental participation.

** The National Parks of England and Wales are designated to conserve and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage, and to promote understanding and public enjoyment of their special qualities. Access to enjoyment impacts positively on health and well-being, while access to understanding contributes to a sense of ownership and lays down the basis for environmental care.

***Support for the Mosaic project includes: the Heritage Lottery Fund, the Countryside Agency, the Baring Foundation, Field Studies Council and Nationwide Building Society. The Youth Hostels Association is supporting the project in kind.



Grwp bechgyn
Affro-Caribi yn cael
blas ar arfordir
Parc Cenedlaethol
(llun: Mosaic)

An Afro-Caribbean
boys group
tasting a
National Park coast
(photo: Mosaic)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Disabled Ramblers
making their way
towards Pen y Fan

Pobl anabl yn
gwneud eu ffordd
tuag at Pen y Fan

Ffordd yn ôl i waith trwy weithio gyda choed

Mae'r Gweithdy Coed - sydd yn cael ei gefnogi gan CDC sydd yn seiliedig ar SIREN Aberhonddu (Cynhwysiad Cymdeithasol yn Cyrraedd Anghenion Gwaith) - yn darparu profiad gwaith a datblygiad sgiliau, yn bennaf ar gyfer cyn-droseddwy.

Gwaith yw'r ffactor unigol pwysicaf i leihau'r risg o gyn-droseddwy yn ail-droseddu. Yn gweithio gyda Coed Cymru, mae marchnadoedd yn datblygu ar gyfer cynhyrchion pren caled wedi eu hachredu gan Gyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth (megis lloeriau, byrddau, cadeiriau, arwyddion).

Prosiect Meithrinfa'r Llethrau

Mae'r prosiect hwn, sydd yn cael ei gefnogi gan CDC, yn cynhyrchu planhigion lleol (grug a llus) i wella cymysgedd rhywogaeth wrth wneud gwaith ail-blannu llysdyfiant yn

gysylltiedig â thrwsio llwybrau ucheldir ar Fannau Brycheiniog.

Mae Coleg Powys wedi datblygu hyfforddiant mewn epilïaeth planhigion ar gyfer cwsmeriaid Gwasanaethau Cymdeithasol efo anaswterau dysgu. Mae'r partneriaid i gyd wedi elwa o rannu sgiliau a phrofiadau, ac mae'r prosiect erbyn hyn yn gyfangwbl hunan-gynhaliol!

Mae staff a myfyrwyr hefyd wedi cychwyn arbrofi gyda thyfu coed o hadau a gasglwyd yn lleol ac mae ganddynt werthiant efo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol - plannu ar Fynydd Pâl (Sugarloaf).

Gwyllo Rhydiwr o Gadair Olwyn

Mae Cuddfan gwyllo adar Llangasty yn fan hudol wedi ei hamgylchynu efo dolydd llawn blodau gwyllt a hesg ar lan deheuol Llyn Syfaddan ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r guddfan a'r mynediad ati yn addas i gadair olwyn ac fe u cynlluniwyd gan APCBB mewn ymgynghoriad â grwpiau lleol yn ymwneud â mynediad i'r anabl. Ceir mynediad ar hyd llwybr hamddenol ar draws y dolydd gyda ffordd bren dros rannau gwlyb a gatau mochyn yn hytrach na chamfeydd. Gall ymwelwyr, sydd yn gyfyng eu symudedd, ddreifio'n nes at y guddfan yn ystod tywydd eithaf sych, drwy drefnu ymlaen llaw gyda'r tir-feddiannwr.

Gwaith Addysgu a Dehongli

Yn ôl natur eu gwaith efo grwpiau amrywiol, mae swyddogion addysgol a wardeiniaid wedi bod yn ymwneud dros y blynyddoedd gyda nifer o brosiectau sydd yn gymdeithasol gynhwysol. I'r dde, amlinellir rai esiamplau diweddar o'u gwaith.

Ymwelodd grwp o blant sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol â'r ganolfan am un noson i ddechrau. Yn dilyn llwyddiant yr ymweliad cyntaf hwn, dychwelodd y plant yn ddiweddarach yn y flwyddyn am ymweliad hirach ac mae'r grwp yn parhau i ymweld â'r ganolfan yn flynyddol.

Mae Danywenallt hefyd yn cael ei ddefnyddio gan grwp o oedolion efo anawsterau dysgu. Tra yn aros yn y ganolfan, bu'r grwp yn helpu efo peth o'r gwaith ymarferol a oedd yn cael ei wneud gan wasanaeth y wardeiniaid. Fe wnaeth staff y Parc Cenedlaethol wedyn eu helpu ar eu taith i gopa Pen y Fan. Roedd y grwp yn falch iawn o'u camp, ac fe gafwyd cydnabyddiaeth cenedlaethol trwy erthygl yn y cylchgrawn Trail.

Dechrau Sicr

Bu'r staff addysgu, mewn partneriaeth â Menter Coedwigaeth, yn weithredol yn cynllunio a helpu ymweliad Dechrau Sicr i'r Parc Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys grwp o rieni a phlant yn teithio i Ganolfan Goedwigaeth Garw Nant ar Fws y Bannau, menter a gefnogwyd gan APCBB (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac Adfywio. Mwynhaodd y rhieni a'r plant ddiwrnod o hwyl a chwarae. I rai, hwn oedd eu hymweliad cyntaf â'r Parc Cenedlaethol.



A way back to work with wood

This SDF supported Brecon based SIREN (Social Inclusion Reaching Employment Needs) Wood-Work-Shop provides work experience and skills development, mainly for ex-offenders.

Employment is the single most important factor in reducing the risk of an ex-offender re-offending. Working with Coed Cymru markets are developing for Forest Stewardship Council accredited Welsh hardwood timber products (e.g. flooring, tables, chairs, signage) - currently not being produced in Powys - all to be made by Wood-Work-Shop employees.

Goods are sold to public sector organisations larger retailers such as B&Q and Homebase, local authorities, and at local craft shows/farmers markets. The project aims to be financially self-sufficient within three years.

As a result, Coed Cymru expects to see enhanced markets for hardwood thinnings, which will encourage

sustainable management of broad-leaved woodlands in Wales.

The Mountainside Nursery Project

This SDF supported project produces locally sourced plants (heather and bilberry) to improve the species mix on re-vegetation work linked to upland path repair in the Brecon Beacons.

Coleg Powys has developed training in plant propagation for Social Services clients with learning disabilities. All partners have benefited from the sharing of skills & experiences, and the project is now entirely self-sustaining!

Students and staff have also started to experiment with growing trees from locally collected seed and have an outlet with the National Trust - planting out on the Sugarloaf.

In autumn 2002, students planted 3,000 acorns, and 2,000 native hedgerow trees. The resulting trees will be planted out by Volunteers in various locations around Brecon Beacons National Park in autumn 2003. Trees grown from seed collected locally are more likely to thrive and do well in the long term.

Wheelchair Wader Watching

Llangasty Bird Hide is an atmospheric site surrounded by wildflower rich meadows and reed beds on the southern edge of Llangors Lake in the Brecon Beacons National Park. The wheelchair accessible hide, and the access to it, was designed by BBNPA through consultation with local disabled access groups. Access is via a level, gentle walk across meadows with boardwalks over wetter areas and kissing gates instead of stiles.

Education and Interpretation Work

The very nature of their work with groups, means education and warden staff are always involved in socially inclusive projects. Some recent, specific examples of this work are outlined below.

An initial one-night visit to Danywenallt Study Centre was made by a group of school children with emotional and behavioural problems. Following this success of this first visit, the children returned later in the year for a longer visit. The school continues to use the centre for annual visits.

Danywenallt has also been used by adults with learning difficulties. Whilst staying at the centre, the group helped with practical work being carried out by the warden service. In addition National Park staff assisted the group on their walk up to the top of Penyfan. The group were very pleased with their summit achievement.

Sure Start

Education staff were involved with a Sure Start visit to the National Park, in partnership with Forest Enterprise. This enabled a group of parents and children to visit Garw Nant Forest Centre, using the Beacons Bus service, an initiative supported by BBNPA and Adfywio. For some of the group it was their first trip to the National Park. The parents and children enjoyed a day of environmental fun and games.



SureStart group
enjoy some fun and
games with BBNPA's
Education Officer

Grwp Dechrau Sicr
yn cael hwyl a sbri
gyda Swyddog
Addysg APCBB



Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Easy access path at
Haroldston Chins,
on the
Pembrokeshire
Coast Path.

Llwybr mynediad hawdd
yn Haroldston Chins,
ar Lwybr
Arfordirol Penfro



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Y grwp yn mwynhau "diwrnodau blasu"

Cafodd Gofalwyr Sir Benfro flas ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol pan wnaethant ymweld â thair ardal yng nghwmni staff y Parc.

Roedd eu hymweliadau yn gysylltiedig â dymuniad Awdurdod y Parc i weithio gyda grwpiau na fyddent, efallai, yn arferol yn ymweld â'r

Parc. Mae dyddiau fel hyn wedi cael eu defnyddio fel ffordd o ymgodymu â chynhwysiad cymdeithasol mewn nifer o Barciau Cenedlaethol.

Ymweliad cyntaf y Gofalwyr – yn gymwys iawn yn ystod Wythnos Genedlaethol Gofalwyr – oedd i Erddi Upton. Roedd y perchennog, Mrs Joyce Skelton, wrth law i arwain taith ar hyd y gerddi coediog. Yn ystod eu hymweliad, gwnaeth y Gofalwyr amryw o gynigion buddiol ar sut i wneud y gerddi yn fwy addas ar gyfer ymwelwyr anabl.

Ymweliad arall oedd i Lwybr yr Arfordir rhwng Abereiddi â Phwll Deri. Roedd amryw o'r aelodau heb ymweld â'r ardal

hon o'r blaen ac unwaith eto roedd yr adborth yn gadarnhaol.

Yn yr Hydref, ymwelodd nifer o aelodau'r grwp â Threfdraeth.

Bwriad y diwrnodau yw cynnig seibiant braf i ofalwyr mewn ardal Parc Cenedlaethol, codi ymwybyddiaeth o rinweddau arbennig y Parc a gwaith yr Awdurdod, ac i ddarparu gwybodaeth a phrofiad i ofalwyr er mwyn codi eu hyder a'u hannog i wneud defnydd annibynnol o'r Parc yn y dyfodol.

Cronfa Datblygu Cynladwy (CDC) yn estyn llaw at bobl ifanc

Mae pobl ifanc ardal Abergwaun a Gwdig o Arfordir Sir Benfro wedi cael eu hannog i chwarae rhan mwy amlwg a phendant yn eu cymuned leol, diolch i gronfa CDC.

Amcan y prosiect oedd creu canolfan ar gyfer gweithgarwch ieuentid a fyddai'n annog pobl ifanc i ennill hunan-ddelfryd a sgiliau byw drwy raglen o weithgareddau, mewn awyrgylch fyddai'n cyd-fynd â'u anghenion.

Gosodwyd pwyslais ar annog pobl ifanc i fynychu - y rhai a deimlai eu hunain wedi eu cau allan o gymdeithas, ac sydd yn ei chael hi'n anodd i ffeindio'u lle mewn cymdeithas.

Cynhwysai'r prosiect gyflogi gweithwyr ieuentid i ddatblygu, trwy gydweithrediad agos â'r bobl ifanc, raglen yn cynnwys materion iechyd ac amgylchedd.

Roedd cynladwyedd yn elfen greiddiol o'r prosiect drwy ailddodrefnu a defnyddio adeilad a oedd yn cael ei dan-ddefnyddio, gwneud defnydd o ynni mewn dulliau a oedd yn llesol yn amgylcheddol, a thrwy alluogi'r bobl ifanc i ddod yn economaidd weithredol yn y gymuned.

Cartrefi i bawb drwy astudiaeth CDC

Mae ardal o Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, a oedd yn dioddef yn ddirfawr o anghenion cartrefi lleol, wedi elwa o ymchwil a phrosiect datblygu CDC.

Trwy To Gwyrdd – Green Roofs mae gan grwp o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhrefdraeth, amcan tymor hir i greu datblygiad bychan, cynladwy na fydd yn cael effaith andwyol yn yr ardal.

Bwriad y prosiect CDC oedd codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn, a chreu adroddiad a chynllun busnes ar gyfer camau pellach i'r cynllun, gan gynnwys cael gafael ar dir, caniatâd, a'r rhaglenn adeiladu ei hun.

Mae'r prosiect wedi cynnwys Awdurdod y Parc, a dalodd ymweliadau i weld mentrau cartrefi cynladwy eraill, ac yn ffocysu'n gryf ar yr angen i ddod o hyd i atebion i'r anghenion cartrefedd cyfredol.

Wrth ymgodymu â chynhwysiad cymdeithasol, mae'r prosiect yn chwilio am gefnogaeth gan y gymuned ehangach, ac yn anelu at wrthweithio cau allan, drwy helpu i ddarparu cartrefi lleol fforddiadwy.

Group enjoys 'taster days'

Pembrokeshire Carers had 'tasters' of the special qualities of the National Park when they visited three areas in the company of Park staff.

Their days out were linked to the Park Authority's wish to work with groups which may not otherwise visit the Park. Such days have been used as a method of tackling social inclusion in a number of National Parks.



First special day for the Carers was a visit – appropriately during National Carers Week - to Upton Gardens. Mrs Joyce Skelton, owner of the property, was on hand to lead a guided tour of the woodland gardens. During their visit, the Carers also made useful suggestions on how the venue could be made more suitable for disabled visitors.

Another visit was to the Coast Path between Abereiddi and Pwll Deri. Several members of the group had

not visited this area before and again feedback was very positive.

An autumn visit by several members of the group was made to Newport.

The days aimed to provide the carers with an enjoyable respite visit in a National Park setting, raise awareness of the special qualities of the Park and the work of the Authority, and present carers with the information and experience to increase their confidence and encourage them to use the Park independently in the future.

SDF reaches out to young people

Young people in the Fishguard and Goodwick area of Pembrokeshire have been encouraged to play a more positive role in the local community thanks to SDF funding.

The aim of the project was to create a centre for youth activity which would encourage young people to acquire self-esteem, and lifestyle skills through a programme of activities in an environment compatible with their needs.

Emphasis was placed on encouraging young people to attend, who felt they were excluded from society and found it difficult to find their place in the local community.

The project involved the employment of youth workers to develop a programme to include health and environment issues, in close co-operation with the young people.

Sustainability formed a core element of the project through the refurbishment and use of an under-used building; utilising environmentally efficient ways of energy use and by equipping the young people to become economically active in the community.

Housing for all through SDF study

An area of the Pembrokeshire Coast National Park under great local needs housing pressure has benefitted from an SDF research and development project.

Through To Gwyrdd – Green Roofs, a group of people living and working in Newport have a long-term objective to create a small, sustainable, low-impact housing development for the area.

The aim of the SDF project was to raise awareness of these issues, and to create a report and business plan for further stages of the scheme, involving acquisition of land, permissions, and the actual building programme.

The project has involved the Park Authority, who have attended visits to see other sustainable housing initiatives, and focuses strongly on the need to find solutions to the current problems of housing need.

In addressing social inclusion, the project seeks to foster support from the wider community, and is aimed at countering exclusion by helping to provide local, affordable housing.

A child examines a fern during a visit from the Minority Ethnic Women's Network (MEWN)

Plentyn yn astudio rhedynen yn ystod ymweliad wrth Rhwydwaith Menywod Ethnig Lleiafrifol (MEWN)



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Ym Mharc Cenedlaethol Eryri, credwn y dylai pawb gael cyfle i fwynhau mwynderau a chyfoeth y Parc. Mae gwaith pwysig eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes hwn, ac enghreifftiau yn unig o'r gwaith a geir yma.



Sicrhau fod pawb yn cael y cyfle i fwynhau'r golygfeydd trawiadol

Ensuring that everybody has the opportunity to enjoy the stunning scenery



Llwybr Morfa Mawddach

Mae'r llwybr hwn, sy'n eiddo i'r Parc, yn dilyn aber yr Afon Mawddach am 9 milltir o Ddolgellau i Abermaw. Mae'r aber a rhannau o'r ardal o gwmpas y llwybr yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn cael eu gwarchod oherwydd eu pwysigrwydd i fywyd gwylt.

Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu'r llwybr yn 2000, a gwnaed ymdrech bwriadol i sicrhau fod y llwybr cyfan yn weddol wastad – rhywbeth anarferol o fewn ardal mor fynyddig ag Eryri! Oherwydd wyneb llyfn y llwybr mae'n

arbennig o addas ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn, ac mae'r trigolion lleol sy'n anabl yn gwneud defnydd cyson ohono.

Pysgotwyr Dwyrdd

Cwmni cyfyngedig yw cwmni Pysgotwyr Dwyrdd a sefydlwyd ym 1989. Bob blwyddyn, mae'r cwmni yn trefnu digwyddiadau pysgota ar gyfer yr anabl ym Maentwrog. Fodd bynnag, teimlwyd nad oedd y cyfleusterau ym Maentwrog yn ddelfrydol ar gyfer pobl ag anableddau ac nad oedd chwaith yn darparu mynediad addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Gwnaed cais i CAE, Cronfa Arbrolfod Eryri am nawdd tuag at godi plattform pysgota parhaol ar gyfer yr anabl, trac mynediad a safle picnic. Gyda chymorth grant o £19,488 gan CAE, gwiredwyd eu cynlluniau. Defnyddiwyd deunyddiau lleol megis gwastraff llechi ar gyfer y trac a'r maes parcio, a choed lleol ar gyfer y plattform. Hwn yw'r cyfleuster cyntaf o'i fath ar gyfer pysgota afon yng ngogledd Cymru.

Cymorth I Ferched Blaenau Ffestiniog

Elusen Gofrestredig yw Cymorth i Ferched De Gwynedd sy'n cefnogi gwragedd a'u plant sy'n dioddef trais yn eu cartrefi.

Dros gyfnod o 6 mis, cafodd teuluoedd o'r lloches gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent wedi eu gwneud o'r blaen – gan gynnwys clywed sgysiaau ar flodau a phlanhigion ym Mhlas Tan y Bwlch a Glynllifon, cyfle i feicio yng nghoedwigoedd Beddgelert a Thywyn, cyfle i ymweld â glan môr ac ymweld â fferm ar waith. Yn sgil eu profiadau cyffrous, mae cynlluniau ar droed i gydweithio eto ar gynllun newydd y flwyddyn nesaf.

Seren

Ym Mlaenau Ffestiniog hefyd mae cwmni Seren Cyf. Fe'i sefydlwyd ym 1997, a'i nod yw cynnig cyfle i bobl ag anawsterau dysgu i fod yn rhan o'r gymuned ehangach drwy ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ar eu cyfer. Un gangen o'u gwaith yw ailgylchu – mae'n adfer hen ddodrefn ac yn cynhyrchu crefftwaith o ansawdd gan gynnwys cardiau cyfarch ar bapur a ailgylchir ar y safle.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'r cwmni hwn yn llwyddiannus ddwy waith wrth wneud cais i CAE. Yn 2001 rhoddodd CAE grant o £9,447 i gwmni Seren er mwyn eu galluogi i gyflogi 3 aelod ychwanegol o staff i weithio ar broiect ail gylchu papur, coed a dodrefn.

Yn 2002, gwnaeth Seren gais llwyddiannus i CAE am £5,000 er mwyn eu galluogi i gyflogi rhywun i roi hyfforddiant ar glustogwaith dodrefn er mwyn addurno dodrefn wedi'u hailgylchu yn eu Gweithdy.

Arwain y Dall

Mae modd i bawb fwynhau gogoniant Eryri. Yn ddiweddar, gyda chymorth mudiadau gwirfoddol lleol, arweiniodd Sam Roberts, ein Uwch Warden, grwp o bobl ddall ar sawl taith o gwmpas rhai o ardaloedd rhyfeddol Eryri. Aeth â nhw i fyny i Gwm Idwal, Moel Eilio a'r Wyddfa. Camp a thasg anodd - nid yn unig i'r cerddwyr ond i'r arweinydd hefyd. Ond, mae Sam bellach yn hen law ar ddisgrifio rhai o'r manau hyn i'r deillio – mae dringo i gopa'r Wyddfa fel tynnu llwybr â'ch tafod o waelod eich ceg i gefn eich dannedd isaf a chael eich dargyfeirio at eich cil-ddannedd ar y ffordd. Rhowch gynnig arni!

At Snowdonia National Park, we believe that everyone should have the opportunity to enjoy the enchantment and treasures of the Park. Important work is already being accomplished in this field and only examples are given here.



**Mynediad hawdd
i bawb ym Mharc
Cenedlaethol Eryri**

**Easy access for all
in Snowdonia
National Park**



Morfa Mawddach Trail

This trail, owned by the Park, follows the Mawddach estuary for 9 1/2 miles from Dolgellau to Barmouth. The estuary and nearby areas are Sites of Special Scientific Interests which are being protected because of their importance to wildlife.

The restoration of the trail was completed in 2000, and every effort has been made to ensure that the whole trail is fairly even throughout – quite a strange concept in such a mountainous area as

Eryri! Due to the smooth face of the track it's especially suitable for walkers, cyclists and wheelchair users – local residents who are wheelchair users are frequent visitors.

Dwryrd Anglers

Pysgotwyr Dwryrd is a limited company established in 1989. Every year the company organises fishing events for people with disabilities in Maentwrog. However, it was felt that the facilities in Maentwrog were not ideal for people with disabilities and did not provide adequate access for wheelchair users.

An application to CAE, the Sustainable Development Fund in Snowdonia was made for funding towards building a permanent fishing platform for people with disabilities, access track and picnic area. With the help of £19,488 grant from CAE, their plans were accomplished. Local produce was used, such as slate waste for the track and car park and local trees were used for the platform. This is the first ever facility of its kind for river fishing in north Wales.

Women's Aid in Blaenau Ffestiniog.

Women's Aid De Gwynedd is a registered charity supporting women and their children who have suffered violence in their homes.

Over a period of 6 months, families from the Blaenau Ffestiniog refuge took part in activities that were new to them – listening to talks on plants and flowers in Plas Tan y Bwlch and Glynllifon, cycling in Beddgelert and Tywyn forests, a visit to the seaside and a working farm. Following their exciting experiences, plans are underway to work again on a similar project in the New Year.

Seren

Also based in Blaenau Ffestiniog is Seren Cyf. Established in 1997, its aim is to provide opportunities for people with learning disabilities to become part of a wider community through providing work opportunities and training for them. One branch of their work is recycling; they refurbish old furniture and produce quality craftwork including greeting cards made from paper recycled on their site.

During the last few years, this company has succeeded twice in obtaining funding from CAE. In 2001, Seren received a grant of £9,444 towards the cost of employing 3 extra members of staff to work on recycling paper, trees and furniture projects. In 2002, they were successful in obtaining a further grant of £5,000 towards the cost of employing a furniture upholstery instructor to decorate recycled furniture in their Workshop.

Leading the Blind

Everybody should be able to enjoy the magnificence of Snowdonia. Recently, with the help of local voluntary organisations, Sam Roberts, one of our senior Wardens lead a group of blind people on a tour around some of the most wonderful areas of Snowdonia. He took them to Cwm Idwal, Moel Eilio and Snowdon. A difficult task and feat – not only for the walkers but also their leader. However, by now, Sam is a dab hand at describing some of these places to the blind climbing to the summit of Snowdon is similar to drawing a trail with your tongue from the back of your mouth to the back of your lower teeth, but diverting to your wisdom teeth on the way. Try it!

Er mwyn gwybodaeth
pellach cysylltwch â:

Llinos Price
Swyddog Polisi Cymru
Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
126 Stryd Bute
Bae Caerdydd CF10 5LE
Ffôn: 02920 499974
Ffacs: 02920 499980



For further information
please contact:

Llinos Price
Wales Policy Officer
Association of National Park Authorities
126 Bute Street
Cardiff Bay CF10 5LE
Tel: 02920 499974
Fax: 02920 499980

Clare Parsons
Swyddog Datblygu Cymunedol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys LD3 7HP
Ffôn: 01874 624437
Ffacs: 01874 622574



Clare Parsons
Community Development Officer
Brecon Beacons National Park Authority
Plas y Ffynnon
Cambrian Way
Brecon
Powys LD3 7HP
Tel: 01874 624437
Fax: 01874 622574

David Fletcher
Swyddog Datblygu Cynladwy
Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Lôn Winch
Hwlfordd
Sir Benfro SA61 1PY
Ffôn: 01437 764636
Ffacs: 01437 769045



David Fletcher
Sustainable Development Officer
Pembrokeshire Coast National Park Authority
Winch Lane
Haverfordwest
Pembrokeshire SA61 1PY
Tel: 01437 764636
Fax: 01437 769045

Elaine Jones
Swyddog Dehongli
Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Lôn Winch
Hwlfordd
Sir Benfro SA61 1PY
Ffôn: 01437 764636
Ffacs: 01437 769045



Elaine Jones
Interpretation Officer, PCNPA
Pembrokeshire Coast National Park Authority
Winch Lane
Haverfordwest
Pembrokeshire SA61 1PY
Tel: 01437 764636
Fax: 01437 769045

Ifer Gwyn
Swyddog Cronfa Arbrofol Eryri
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn: 01766 770274
Ffacs: 01766 771211



Ifer Gwyn
Sustainable Development Fund Officer
Snowdonia National Park Authority
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Tel: 01766 770274
Fax: 01766 771211

Sylvia Davies
Senior Policy Officer
Council for National Parks
Baltic House
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FH
Tel 029 2045 0433
Email sylvia@cnp.org.uk



Sylvia Davies
Uwch Swyddog Polisi
Cyngor y Parciau Cenedlaethol
Ty Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH
Ffôn 029 2045 0433
Ebost sylvia@cnp.org.uk